**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Glantwymyn 26.2.26</u>**

**Neuadd Cymuned Glantwymyn am 7.30yh**

**19:922: Presennol:** Bedwyr Fychan (Cadeirydd), Deryck Lewis, Aled Griffiths, Paul Hughes, Glyn Jones, Dafydd Evans, Gwen Lloyd. Gareth Owen. William Owen, Aeron Pughe, Gwenfair Rhys-Davies, Sandra Evans (Clerc)

**19:923: Ymddiheuriadau**, Huw Williams, Iwan Pughe Jones, Gareth Wyn Jones, Rhodri Wigley

**19:924: Materion Personol: -** Llongyfarchiadau i Aled Griffiths am gael ei ethol yn Gadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol 2027

**19:925: Datganiadau o ddiddordeb**: Dim

**19:926: Cyflwyno a derbyn cofnodion 22.1.26**. Nodwyd nad oedd Deryck Lewis yn y cyfarfod diwethaf a bod Aeron Pughe a Gwenfair Rhys-Davies wedi ymddiheuro ymlaen lllaw

Cynigiwyd bod y cofnodion yn iawn gan Dafydd Evans ac fe'i heiliwyd gan Glyn Jones.

**19:827: Materion yn codi o'r cofnodion.**

**19:828: Adroddiad y Clerc-** Bydd Cyngor Sir Powys yn cysylltu diffib Tal-y-wern y mis yma.

Mae Swyddfa'r Awdit wedi dychwelyd ffeil Awdit 2024-2025.

Mae Elwyn Vaughan wedi cysylltu â Richard Arwyn i drafod y pryderon yng Nghemaes. Erbyn hyn mae Adam Christie-Rees yn cysylltu â Llywodraeth Cymru. Cysylltir eto ag ef i gael diweddariad. Gofynnir am gyfarfod safle gydag Elwyn a'r Cynghorwyr i drafod y mater ymhellach.

Mae Cyngor Sir Powys wedi cydnabod y materion a adroddwyd y mis diwethaf.

**19:829: Cynllunio: -**Dim

**19:830: Materion ariannol ac eitemau i'w talu**

- Costau'r awdit allanol - £2332.25 – gweddill y taliadau hanesyddol

  Costau'r awdit mewnol – Mrs. Eirlys Pughe £300.00

- Costau'r Clerc - Stampiau Ebrill 2021-Mawrth 2025, inc £174. 34, papur £20.00, beiros.prit stick, amlenni £11.57, postio awdit 24-25) £293.33

  Cyflog y Clerc (Ionawr mis 11) £313.70 Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Gwenfair Rhys-Davies ac fe'i heiliwyd gan Aeron Pughe.

- Gallagher – Yswiriant seiber £212.04 Cynigiwyd y dylid talu hwn gan Gwenfair Rhys-Davies ac fe'i heiliwyd gan Gareth Owen yn amodol ar adolygiad gan Aled Griffiths

- Derbyniadau: Praesept £5308.44 (31.12.25), Rhys Bleddyn £300.00 (12.2.26)

Cyflwynir costau'r Clerc yn chwarterol yn y dyfodol.

**19:931: Gohebiaeth** – Derbyniwyd llythyr a manylion pellach am Gapel M.C. Cemaes a chais am ofalu am y fynwent. Trefnir cyfarfod safle gydag Elwyn Vaughan Mr. Edward Breese a'r Cynghorwyr i gael mwy o fanylion a thrafod ymhellach.

**19:932: Dogfennau Cofrestri Tir Comin:** Ar gais Mr.Stephen Tudor. Cytunwyd i roi'r dogfennau hyn i Lyfrgell Genedlaethol Cymru i gefnogi prosiect ymchwil i enwau caeau Cwmlline.

**Adroddiadau'r Cynghorwyr** - Dim

**19:933: Ffyrdd a Phontydd:**

- Adroddir eto bod angen sweeper i lanhau ffordd Llanwrin hyd y fffordd gefn o bont Mathafarn i Aberangell. Mae cyflwr y ffordd o ganlyniad i fwd, dŵr a rhedyn yn peryglu'r cyhoedd.
- Adroddir eto - Glantwymyn ger Llys Dyfi /Bryn Dyfi - hen ffos cwmni dŵr wedi suddo'n isel a chreu llyncdwll a pheryglon i'r cyhoedd. Mae aelod o'r cyhoedd eisoes wedi syrthio mewn ac mae pryderon difrifol gan nad yw'r lamp stryd gyfagos yn gweithio ychwaith.SY20 8JZ
- Cyfyngder cyflymder Cemaes – Cysylltir ag Adam am ddiweddariadau a threfnir cyfarfod safle gydag Elwyn Vaughan Christie-Rhys (Cefnffyrdd) a'r Cynghorwyr.
- Ffordd Comins – Er bod addewid i roi wyneb newydd ar y ffordd, gwaith cyweirio hollol anfoddhaol sy wedi digwydd hyd yn hyn.
- Adroddir eto am y dŵr ar y ffordd ger Eglwys Cemaes.
- Ffordd yn rhoi uwchlaw Pont Cae'r Hendre, Cwmlline (What3words unable.harminoca.treaties)

**19:934: Unrhyw fater arall –** Hysbyseb torri gwair mynwentydd Darowen a Llanwrin. Rhoddir hysbyseb yn y Blewyn Glas.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.56yh

Cynhelir y cyfarfod nesaf **26.3.26**

- **Cytundeb EDF** – Gohiriwyd y drafodaeth tan y cyfarfod nesaf.
  Daeth y cyfarfod i ben am 8.55